

# Adroddiad Adolygu Ymarfer Oedolion

## Adroddiad Adolygu Ymarfer Oedolion

### Byrddau Diogelu Cwm Taf Adolygiad o Ymarfer Oedolion Estynedig

Cyf: CTSB 2/2016

#### Crynodeb o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma: -*

- *Cyd-destun cyfreithiol y canllawiau mewn perthynas â'r adolygiad dan sylw*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a pham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau pwysig i'w hychwanegu fel atodiad*

Comisiynwyd adolygiad estynedig gan Fyrddau Diogelu Cwm Taf ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Oedolion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu bodloni dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Gwrthrych yr adolygiad yw Cymro gwyn o gymoedd y De. Roedd yn dod o deulu mawr cymhleth ac mae asiantaethau partner y Bwrdd wedi dod i gysylltiad sylweddol â'r unigolyn a'i deulu.

Arweiniodd pryderon am rianta ac amodau yn y cartref at yr unigolyn a'i frodyr a'i chwiorydd iau yn derbyn gofal pan fo'r unigolyn yn 15 oed. Cymaint oedd lefel y risg fel bod enwau'r holl blant wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol a lluniwyd cynllun gwaith amlasiantaeth gyda'r teulu i leihau'r risg.

Yn unol â'i ddymuniad, caniatwyd i'r unigolyn ddychwelyd adref ar ôl 4 wythnos o dderbyn gofal gan ofalwyr maeth. Tynnwyd ei enw oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond parhaodd ei frodyr a'i chwiorydd iau i dderbyn gofal, a dilynodd achosion gofal mewn perthynas â'r plant iau hynny.

Yn 17 oed, cyhuddwyd a chafwyd yr unigolyn yn euog yn ddiweddarach o droseddau rhywiol difrifol yn erbyn plentyn dan oed. Fe'i cadwyd yn y ddalfa i ddechrau ac yn ddiweddarach cafodd ei garcharu.

Yn ystod ei gyfnod yn yr Ystad Ddiogeledd (sy'n cynnwys 2 Sefydliad Troseddwy'r Iau, a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel lle cadwyd yr unigolyn), roedd pryderon am

iechyd meddwl yr unigolyn a'i fod yn agored i niwed, roedd wedi hunan-niweidio ac wedi bygwth lladd ei hun. Cafodd ei symud 3 gwaith yn ystod ei gyfnod yn yr Ystad Ddiogeled. Ar y bore ar ôl ei symud am y trydydd tro, fe'i canfuwyd wedi crogi ei hun yn ei gell dros nos gan staff y carchar.

Mae'r Crwner wedi cofnodi rheithfarn naratif sydd wedi'i rhannu gydag Aelodau'r Panel Adolygu sydd hefyd wedi ystyried yr adroddiad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth mewn perthynas â marwolaeth yr unigolyn.

Yr amserlen ar gyfer yr adolygiad oedd 01/11/2012 i 03/09/2015 yng ngoleuni digwyddiadau allweddol a ddigwyddodd ym mis Medi 2015. Sail resymegol yr amserlen hon oedd bod yr unigolyn yn berson ifanc a oedd yn derbyn gofal yn y cyfnod o ddwy flynedd cyn ei farwolaeth.

### **Ymarfer a dysgu sefydliadol**

*Nodwch bob pwylt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys pwysleisio ymarfer effeithiol) yn ogystal â chrynodeb o'r amgylchiadau perthnasol*

#### **Dylai'r penderfyniad i dynnu enw plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael ei hysbysu gan ailasesiad a thystiolaeth o lai o risg.**

Yn yr achos hwn, daeth gweithwyr proffesiynol i glywed na wnaeth yr unigolyn gymryd rhan yn y cynllun amlasiantaeth i leihau risg ar ôl cynnwys ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd wedi dangos ymddygiad ymosodol yn y lleoliad maeth ac wedi rhedeg i ffwrdd. Roedd wedi mynegi dymuniad i ddychwelyd adref o ofal maeth. Roedd y penderfyniad amlasiantaeth i dynnu ei enw oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i seilio ar yr heriau a oedd yn gysylltiedig â rhoi'r cynllun ar waith ac oedran yr unigolyn a oedd bron yn 16 oed ar y pryd, yn hytrach na thystiolaeth o lai o risg.

Er gwaethaf pryderon am les emosiynol, ymddygiad ac amgylchiadau'r unigolyn, caewyd yr achos i wasanaethau plant ar ôl i gynnig o wasanaeth ataliol gael ei wneud a'i wrthod.

Mae ymarfer wedi newid a gwasanaethau wedi datblygu ers cyfnod y digwyddiadau hyn. Mae canllawiau amlasiantaeth y Bwrdd Diogelu, Challenging Cases, wedi'u rhoi ar waith ac yn darparu'r dulliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar ymarferwyr i ddatrys neu uwchgyfeirio achosion lle nad yw'r risg yn lleihau er bod cynllun gwaith amlasiantaeth yn ei le er mwyn lleihau risg.

Arweiniodd hyn at yr Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai asiantaethau atgoffa staff y dylai argymhelliad i dynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant gael ei lywio gan ailasesiad sy'n dangos

tystiolaeth bod llai o risg.

- Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau bod adrodd o dan y Protocol Achosion Anodd er mwyn rhoi sicrwydd ei fod yn effeithiol wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Mae ymddygiad rhywiol niweidiol mewn pobl ifanc yn gofyn am ymateb amlasiantaeth wedi'i gydgysylltu'n dda dan weithdrefnau amddiffyn plant sy'n rhoi lles y person ifanc a rheoli risg yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ac wrth ymateb.**

Yn yr achos hwn, ni chyd-gysylltwyd cyfarfod strategaeth o dan y Protocol Ymddygiad Niweidiol Rhywiol i gefnogi'r ymarfer amlasiantaeth wrth reoli risg a chydgyssylltu ymatebion i anghenion yr unigolyn. Collwyd cyfle yma i gydgysylltu gwasanaethau ac asesu mewn perthynas â lles y person ifanc.

Arweiniodd hyn at yr Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai asiantaethau partner y Bwrdd atgoffa ymarferwyr o weithdrefnau a phrotocol mewn perthynas â rheoli ymddygiad rhywiol newidiol.
- Dylai asiantaethau partner y Bwrdd sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'r achos hwn yn cael ei integreiddio i unrhyw weithdrefnau a phrotocolau diwygiedig neu newydd mewn perthynas â rheoli ymddygiad rhywiol niweidiol.

**Dylai adroddiadau cyn dedfrydu ystyried yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael i'r Llys wrth Ddedfrydu.**

Yn yr achos hwn, nid oedd yr Adroddiad Cyn-Dedfrydu yn cynnwys yr opsiwn o Orchymyn Cadw a Hyfforddi. Gan gydnabod mai penderfyniad barnwrol yw dedfrydu, wrth geisio sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc, dylai awduron adroddiadau cyn-dedfrydu gynnwys pob opsiwn sydd ar gael i'r Llys.

Arweiniodd hyn at yr Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf adolygu'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer gorffen Adroddiadau Cyn-Dedfrydu i sicrhau bod yr holl opsiynau dedfrydu wedi'u cynnwys.

**Dylid rheoli'r pontio i wasanaethau newydd pan fo person ifanc yn troi'n 18 oed yn effeithiol i sicrhau canlyniadau da ar gyfer pobl ifanc.**

Mae'r Adolygiad hwn wedi tynnu sylw at y perygl ychwanegol o droi'n 18 oed o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae Youth to Adult (Y2A) Transitions Principles and Guidance 2015 y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn pwysleisio:

*The transition process must be acknowledged as a critical period of heightened risk and must not focus on one organisation relinquishing responsibility of a young person. Instead, the transition process must be seen as a critical time in the young person's journey through the criminal justice*

*system where extra effort, early planning and accurate assessment is required to cater for the individual needs of the young person and to manage any risks.*

Yn yr achos hwn, ni chafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng y staff perthnasol o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Carchar y Parc a'r unigolyn cyn nac ar ôl dedfrydu, i gytuno ar gynlluniau neu i gynllunio'r pontio gyda chyfnod o gydweithio. Collwyd cyfle yn sgil yr esgeulustod hwn i dynnu sylw at wendidau penodol yr unigolyn ac (yn y cyfnod ar ôl dedfrydu) i sicrhau bod asesiad seiciatreg yn cael ei gynnal yn gynnar fel yr argymhellwyd fel rhan o'r asesiad seicolegol cyn-dedfrydu.

Mae'n faes dysgu a arweiniodd yr Ombwdsmon at argymhell:

*The Chief Executive of the National Offender Management Service, the Chief Executive of the Youth Justice Board and the Director of the National Offender Management Service in Wales should ensure that transition arrangements for young people moving to adult custody include a jointly agreed management plan covering at least the first six months after transfer, outlining how their needs will be met, and how their risks and vulnerabilities will be managed.*

Arweiniodd hyn at yr Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf, Carchar y Parc a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod Youth to Adult (Y2A) Transitions Principles and Guidance yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sy'n profi'r newid o weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid i weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer oedolion.

Mae'r Adolygiad hwn wedi ceisio cadw ei ffocws ar ddysgu amlasiantaeth Cwm Taf, ond gwelodd fod y digwyddiadau hollbwysig canlynol a gyhoeddwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth o arwyddocâd penodol:

*On 20 March, the Secure Estate Provider received the subject's psychology report, dated 9 February 2015, and it was scanned into his medical records that day. The report had recommended an urgent psychiatric assessment as the psychologist had concluded that the subject had a serious mental illness. However, there is no record that anyone in the healthcare team read the report when it arrived. No one referred the subject for a psychiatric assessment.*

*On 12 August, a psychiatrist saw the subject at the prison, for the assessment required by the Court of Appeal. The psychiatrist reviewed the subject's GP and prison medical records, but noted that the Secure Estate Provider had not provided him with the psychology report of 9 February prepared for his trial. The psychiatrist considered that the subject's main difficulty was coping with stress and he possibly had a conduct disorder. He assessed him as at high risk of suicide or self-harm, as he had very limited coping skills. There is no record that the psychiatrist discussed this assessment with anyone from the healthcare team at the time and the prison did not receive a copy of the psychiatric report until after the subject had died.*

Arweiniodd hyn at yr Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai carcharorion y mae gweithwyr proffesiynol yn nodi eu bod yn dioddef salwch meddwl gael mynediad at asesiad seiciatrig yn ddi-oed.

### **Ymarfer Effeithiol a Chadarnhaol**

Nododd yr adolygiad yr ymarfer cadarnhaol ac effeithiol canlynol:

**Addysg:** Roedd yr unigolyn yn dod ymlaen yn dda yn yr Uned Atgyfeirio Disgyblion lle cafodd ei gefnogi gan fodolau rôl gwrywaidd, ac ymatebodd i amgylchedd gyda strwythur a oedd yn ei feithrin. Y farn oedd bod darparu cludiant o ddrws i ddrws yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

**Gwasanaethau plant:** Disgrifiodd un aelod o'r teulu sut roedd y gwasanaeth 16+ wedi gwneud gwahaniaeth mawr iddi, ac er nad oedd y gwasanaeth hwn ar gael i'w brawd neu ei chwaer hŷn, roedd cael rhywun i ymddiried ynddyn nhw a siarad gyda nhw fel person normal yn cael ei werthfawrogi'n fawr fel rhywbeth o werth a oedd yn ei galluogi i fanteisio ar gymorth gan y gwasanaeth hwn.

**Welcome to our Woods:** Prosiect coetir lleol yn y gymuned yw Welcome to our Woods. Siaradodd aelodau'r teulu ag adolygwyr am fanteision y gwasanaeth hwn a oedd yn darparu gweithgareddau anfeirniadol, ysgogol ac y gellid ymddiried ynddynt, gyda'r unigolyn a'i deulu yn eu gwerthfawrogi.

### **Gwella Systemau ac Ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i aelod asiantaethau a'r canlyniadau gwella arfaethedig hyn:-*

- Dylai aelod-asiantaethau'r Bwrdd Diogelu atgoffa staff y dylai argymhelliad i dynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant gael ei lywio gan ailasesiad sy'n dangos tystiolaeth bod llai o risg.
- Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau bod adrodd o dan y Protocol Achosion Anodd er mwyn rhoi sicrwydd ei fod yn effeithiol wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Dylai asiantaethau partner y Bwrdd atgoffa ymarferwyr am weithdrefnau a phrotocol mewn perthynas â rheoli ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Dylai asiantaethau partner y Bwrdd sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn yr achos hwn yn cael ei integreiddio i unrhyw weithdrefnau neu brotocolau diwygiedig neu newydd mewn perthynas â rheoli ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Dylai Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf adolygu'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi'r Adroddiadau Cyn-dedfrydu i sicrhau bod pob

opsiwn dedfrydu wedi'u cynnwys.

- Dylai Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf, Carchar y Parc a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod *Youth to Adult (Y2A) Transitions Principles and Guidance* yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sy'n profi'r newid o weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid i weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer oedolion.
- Dylai carcharorion agored i niwed y mae gweithwyr proffesiynol yn nodi eu bod yn profi salwch meddwl gael mynediad at asesiad seiciatreg yn ddi-oed.

<b>Datganiad gan Adolygwr/Adolygwyr</b>	
<b>ADOLYGWR 1</b>	<b>ADOLYGWR 2 (fel sy'n briodol)</b>
<b>Datganiad o fod yn annibynnol o'r achos</b> <i>Datganiad o gymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>	<b>Datganiad o fod yn annibynnol o'r achos</b> <i>Datganiad o gymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>
Rwy'n gwneud y datganiad canlynol - cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:-  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd gennyf unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac ni chefais unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos.</li> <li>• Nid oeddwn yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.</li> <li>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig a'r wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol, a chafodd y materion eu dadansoddi a'u gwerthuso'n drylwyr yn unol â'r Cylch Gorchwyl.</li> </ul>	Rwy'n gwneud y datganiad canlynol - cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:-  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd gennyf unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac ni chefais unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos.</li> <li>• Nid oeddwn yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.</li> <li>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig a'r wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol, a chafodd y materion eu dadansoddi a'u gwerthuso'n drylwyr yn unol â'r Cylch Gorchwyl.</li> </ul>
<b>Adolygwr 1</b> <i>(Llofnod)</i> .....	<b>Adolygwr 2</b> <i>(Llofnod)</i> .....
<b>Enw</b> <i>(llythrennau bras)</i> .....	<b>Enw</b> <i>(llythrennau bras)</i> .....
<b>Dyddiad</b> .....	<b>Dyddiad</b> .....

<b>Cadeirydd y Panel Adolygu</b> (Llofnod)	.....
<b>Enw</b> (Llythrennau bras)	.....
<b>Dyddiad</b>	.....

**Atodiad 1:** Cylch gorchwyl

**Atodiad 2:** Amserlen gryno

## Y Broses Adolygu Ymarfer Oedolion

*I'w gynnwys yma'n gryno:*

Roedd y broses a ddilynwyd wrth gynnal yr adolygiad yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Cafodd cadeirydd annibynnol ei benodi o awdurdod lleol cyfagos, a phenodwyd dau adolygydd annibynnol (y naill o awdurdod lleol arall a'r llall o asiantaeth nad oedd yn gysylltiedig â'r achos).

Roedd y gwasanaethau canlynol yn rhan o'r Panel:

- Heddlu
- Gwasanaethau Plant
- Iechyd
- Addysgu
- Troseddau Ieuencid
- Gwasanaeth ambiwlans
- Cyfreithiol (awdurdod lleol)

Gwahoddwyd y sefydliadau'r Ystad Ddiogeledd hefyd.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a mynychodd cynrychiolwyr o'r gwasanaethau canlynol:

- Uned Diogelu Busnes
- Heddlu De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Addysg RhCT – Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Seicoleg Addysg
- Gwasanaeth Adolygu Annibynnol RhCT
- Tîm 16+ Gwasanaethau Plant RhCT
- Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf – gweithwyr Bwrdd Iechyd a

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithwyr gwasanaethau
- FACTS/Inreach
- Darparwr yr Ystad Diogeled

Fe wnaeth yr ymarferwyr a fynychodd ac a gyfrannodd at y digwyddiad dysgu weithio'n galed ac yn ddiamddiffyn i nodi dysgu unigol a sefydliadol. Dangoswyd ymrwymiad i wneud newidiadau i wella ymarfer yn y dyfodol.

Cyfrannodd y teulu at yr Adolygiad Ymarfer Oedolion a chyfarfod yr Adolygwyr i gynnig eu safbwyntiau a phrofi'r gwasanaethau. Rhannwyd profiadau aelodau'r teulu gyda chyfranogwyr y digwyddiad dysgu. Roedd cyfarfod pellach gydag aelod o'r teulu cyn cyhoeddi'r Adolygiad hwn er mwyn rhannu a thrafod ei ganfyddiadau.

### At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn y wybodaeth .....

Dyddiad anfon llythyr cydnabyddiaeth at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

.....

Dyddiad anfon at arweinwyr arolygiaethau/polisi perthnasol .....

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	



